# Pecyn Cymorth Cyfathrebu

# Cyflwyniad i

Llyfrgell Pethau i Gymru ydy Benthyg Cymru ac un nod syml sydd ganddi sef gwneud benthyg mor hawdd â phicio allan am dorth o fara.

## Pam fod Benthyg Cymru yn bodoli?

Mae Benthyg Cymru yn dod â chymunedau ynghyd i gefnogi ei gilydd drwy rannu eitemau bob dydd a sgiliau er mwyn lleihau ein heffaith ar ein planed ac ar ein pocedi.

## Beth mae Benthyg eisiau ei gyflawni?

Dymunwn:

1. Annog pobl i roi eitemau nad ydyn nhw eu hangen bellach, gan ddarparu cyflenwad iach o eitemau yn y gymuned
2. Helpu pobl i gael gafael ar beth maen nhw ei angen ond ddim yn berchen arno drwy Fenthyg nid Prynu a lleihau ein heffaith ar y blaned
3. Meithrin cymunedau cryf ar sail rhannu eitemau, sgiliau a chefnogaeth gymdogol

# Pam benthyg nid prynu?

Mae pob tŷ ar bob stryd yn llawn dop o declynnau, cyfarpar ac offer a gafodd eu prynu a'u defnyddio unwaith, heb gael eu defnyddio eto.

Mae rhannu'r eitemau yma â'n cymdogion yn helpu pawb. Mae rhannu yn lleihau annibendod yn ein cartrefi ac yn creu man mwy llonydd i ni fyw ynddo. Mae benthyg yn lle prynu yn lleihau ein heffaith ar y blaned, ac yn ein helpu i gadw tipyn bach yn fwy o arian yn ein poced hefyd.

## Beth wela' i yn fy nghangen Benthyg leol?

Wrth lunio cynnwys ar gyfer hyrwyddo'r hwb, un o'r cwestiynau i'w hystyried yw gadael i bobl yn eich ardal leol wybod ble i gael eu heitemau.

**Er enghraifft:**
Mae pob Benthyg ledled Cymru yn wahanol, ond yn ein Benthyg ni yn ENWCH YR ARDAL fe welwch chi ENWCH EITEM ac ENWCH EITEM, ENWCH EITEM, a llawer iawn mwy. Mae'r holl eitemau yma ar gael i'w benthyg am ffi fach, a gallwch chi dalu gydag arian parod neu gyda'ch amser, drwy wirfoddoli gyda ni.

# Tôn llais

## Benthyg Cymru

Rydyn ni'n mynegi ein brand bob tro rydyn ni'n cyfathrebu â phobl, felly mae'n rhaid i'n personoliaeth gyffredinol gael ei hadlewyrchu yn ein tôn llais cyffredinol:

**Mae ein tôn llais ni yn Benthyg yn:**

**weithredol, cyfeillgar, chwilfrydig + chynhwysol**

"Gallwn ni gefnogi'n cymuned a'r blaned drwy Fenthyg nid Prynu"

"Rydyn ni yma i gefnogi ein cymuned."

"Gyda'n gilydd gallwn ni helpu'n cymdogion i Fenthyg nid Prynu."

"Ymwelwch â Benthyg y penwythnos yma i weld pa eitemau newydd sydd gennyn ni ar gael i'w Benthyg"

"Erioed wedi tybio a allech chi wneud eich pasta eich hun? Dyma gyfle i gael gwybod drwy fenthyg ein teclyn gwneud pasta sydd newydd gael ei roi!"

Defnyddiwch eiriau sy'n cyfleu cymundodau yn hytrach nag unigolion:

✓ **Ni, Gyda'n Gilydd** ✗ **Fi, Chi, Ti, Nhw**

Lle bo'n bosibl ysgrifennwch yn yr amser presennol:

✓ **Rydyn ni'n paratoi am benwythnos prysur yn Benthyg**

✗ **Roedd hi'n benwythnos prysur yn Benthyg**

**Defnyddiwch ramadeg hygyrch a Chymraeg bob dydd.**
Mae brawddegau byrrach yn haws eu darllen.

**Chwaraewch a chael hwyl gydag iaith:**
Ond byddwch yn ofalus wrth ddefnyddio bratiaith, iaith ffasiynnol neu ffurfiol. Mae iaith or-ffurfiol yn swnio'n amhersonol, tra bod geiriau trend a slang yn gallu swnio'n amhroffesiynol.

Cadwch bethau'n ddifyr, yn bersonol ac yn benodol:

✓ **Mae ein gwirfoddolwyr yn cael hwyl a sbri yn rhestru pob sugnydd llwch, bwrdd smwddio a chan dyfrio newydd y bore 'ma!**

✗ **Mae eitemau newydd wedi cael eu rhoi i Benthyg**

Osgowch jargon a geiriau anodd:

✓ **Gyda'n gilydd gallwn ni feithrin cymuned rannu gryf sydd am ofalu am y blaned**

✗ **Gyda'n gilydd gallwn ni greu economi rannu gydnerth, gynaliadwy a chynhwysol**

# Lansio hwb newydd



BENTHYG CYMRU

# Lansio trwy
# weithgarwch yn y wasg

I lansio'ch hyb newydd, bydd cysylltiadau â'r wasg leol yn helpu i godi ymwybyddiaeth o'r lansiad.

Gallwch chi weld templed am
**HYSBYSIAD I'R WASG**
**yn Saesneg yma.**

**CLICIWCH YMA**

Gallwch chi weld templed am
**HYSBYSIAD I'R WASG**
**yn y Gymraeg yma.**

**CLICIWCH YMA**

Gallwch chi weld templed am
**NODYN I'R GOLYGYDD**
**yn Saesneg yma.**

**CLICIWCH YMA**

Gallwch chi weld templed am
**NODYN I'R GOLYGYDD**
**yn y Gymraeg yma.**

**CLICIWCH YMA**

## Lansio ar

# gyfryngau cymdeithasol

**Argymhellion am sianeli**
Lle bo'n bosibl, bydd sefydlu o leiaf un dudalen cyfryngau cymdeithasol am yr hyb newydd yn helpu i greu cysondeb ar draws y rhwydwaith ac yn gadael i'ch cynulleidfa ddod o hyd i fwy o wybodaeth am eu hwb lleol yn uniongyrchol.


Rydyn i'n argymell creu tudalen Facebook am eich hwb, os bydd adnoddau'n caniatáu. Mae hon wedi profi'r sianel fwyaf effeithiol am gyrraedd cymunedau lleol ac yn cynnig man i chi roi'r newyddion diweddaraf i'r gymuned yn ôl yr angen.

Beth am greu cyfrif Instagram a Twitter hefyd, yn dibynnu ar adnoddau'ch tîm. Os nad oes gennych chi'r adnoddau, rydyn i'n argymell canolbwyntio ar ddefnyddio'r deunyddiau all-lein ac e-bostio'r wasg leol gyda'r hysbysiadau i'r wasg templed, er mwyn manteisio i'r eithaf ar amser eich tîm.

**Sefydlu sianeli**
Bydd enwau'n cael eu seilio ar beth sydd ar gael o fewn y platfform ond dylen nhw ddilyn confensiwn @Benthyg[lleoliad], er enghraifft "@BenthygPenarth".

Mae cynnwys delwedd o'ch tîm newydd yn y digwyddiad lansio wedi gweithio'n dda wrth lansio hybiau eraill. Os na fydd hyn yn bosibl, rhowch ddolen â thudalen y lleoliad ar y wefan: https://www.benthyg-cymru.org/.

Cyfeiriwch at yr arweiniad am dôn llais i helpu i greu eich postiad cyfryngau cymdeithasol am lansiad eich hyb.



## Lansio gan ddefnyddio

# adnoddau cyfryngau print

Yn ogystal â chyfryngau cymdeithasol, efallai y byddwch chi am rannu adnoddau cyfryngau print hefyd i gyrraedd eich cymuned.


Bydd deunyddiau all-lein fel posteri a thaflenni'n ddefnyddiol o bosibl i gyrraedd y bobl hynny sydd heb fynediad i'r rhyngrwyd. Dyma dempled am boster yma.

Gallwch chi ddefnyddio'r templed yma yn yr offeryn golygu a chreu ar-lein, Canva. Gallwch chi wneud cais am fersiwn Pro di-elw o'r offeryn am ddim.

**Gallwch chi wneud cais yma am fynediad am ddim.**

Mae ond angen creu cyfrif gan ddefnyddio cyfeiriad e-bost ac ymgeisio trwy'r ddolen uchod.

**Ar ôl creu eich cyfrif, gallwch chi fynd at y templed yma.**



**Lansio gan ddefnyddio**

# codau QR ar adnoddau cyfryngau print

**Ar y posteri, fe welwch chi ein bod wedi gadael gofod am god QR.**

Mae'r rhain yn godau mae pobl yn gallu eu sganio gyda'r camerâu ar eu ffonau i gael eu cyfeirio at ddolen benodol

**Gallwch chi greu cod QR yn syml drwy fynd i wefan generadu codau QR, fel yr un yma.**


Yna rydych chi'n mewnbynnu'r ddolen rydych chi am gyfeirio pobl ati hi, a chlicio lawrlwytho. Bydd angen i chi 'gofrestru' am ddim gyda chyfeiriad e-bost, neu gallwch chi dynnu ciplun o'r QR heb orfod cofrestru.

# Amserlen gweithgareddau

# Amserlen weithgarwch

## Bydd y gweithgarwch yn ystod y flwyddyn yn canolbwyntio ar y nod pennaf, sef annog pobl i fenthyg.

Mae'r chwe charreg filltir ddilynol yn gallu cael eu defnyddio i greu cynnwys cyfryngau cymdeithasol trwy gydol y flwyddyn am eich sianel Benthyg Cymru. Mae postiadau enghreifftiol yn cael eu cynnwys yn y pecyn cymorth yma sy'n amlygu sut mae Benthyg Cymru yn gallu trafod pob un o'r cerrig milltir hyn.



## Cynnwys cyfryngau cymdeithasol:


# glanhau gwanwyn

### Cynnwys ar gyfer Ebrill a Mai.


Mae angen i'r cynnwys yma ganolbwyntio ar bethau allweddol a fydd ym meddyliau'r gynulleidfa tua'r adeg yma, gan gynnwys:

- Glanhau trylwyr am y gwanwyn gan gynnwys glanhawyr carpedi
- Y tymor clirio annibendod a gwneud rhoddion gyda phecynnau sugnydd aer ac annog rhoddion

Postiad enghreifftiol i amlygu cynaladwyedd:




Postiad enghreifftiol i annog benthyciadau:




Postiad enghreifftiol i annog rhoddion:




**Amserlen weithgarwch**

## Cynnwys cyfryngau cymdeithasol:


# rhestr tasgau'r haf

**Cynnwys ar gyfer Mehefin a Gorffennaf.**


Cael gafael ar yr offer mae ei angen i gyflawni tasgau mawr yr haf, lle mae cost pob defnydd yn teimlo'n afresymegol, gan gynnwys:

- Torri'r glaswellt
- Clirio gwteri
- Glanhau'r barbeciw
- Golchi â theclyn pŵer
- Atgyweiriadau DIY
- Peiriannau gwnïo

**Postiad enghreifftiol i amlygu cynaladwyedd:**




**Postiad enghreifftiol i annog benthyciadau:**




**Postiad enghreifftiol i annog rhoddion:**




**Amserlen weithgarwch**

## Cynnwys cyfryngau cymdeithasol:


# Gweithgareddau haf

**Gorffennaf ac Awst.**


Gweithgareddau benthyg i ddiddanu'r teulu yn ystod gwyliau'r haf gan gynnwys:


- Beiciau
- Offer gwersylla
- Coginio a phobi
- Garddio
- Offer ffitrwydd
- Offer amddiffyn
- Siwtiau gwlyb ac offer dŵr

Postiad enghreifftiol i amlygu cynaladwyedd:




Postiad enghreifftiol i annog benthyciadau:




Postiad enghreifftiol i annog rhoddion:

**Amserlen weithgarwch**

## Cynnwys cyfryngau cymdeithasol:

# Digwyddiadau teuluol

**Cynnwys ar gyfer Medi, Hydref a Tachwedd.**

Gwneud y cyfle i gymryd rhan mewn digwyddiadau tymhorol yn bosib i bob teulu, gan gynnwys:

- Gasebos ar gyfer noson tân gwyllt
- Cymhorthion anabledd am hygyrchedd i aelodau'r teulu sy'n ymweld
- Offer crefft i wneud gwisgoedd Calan Gaeaf

**Postiad enghreifftiol i amlygu cynaladwyedd:**

**Postiad enghreifftiol i annog benthyciadau:**

**Postiad enghreifftiol i annog rhoddion:**




**Amserlen weithgarwch**


## Cynnwys cyfryngau cymdeithasol:

# Nadolig


**Paratoi am y Nadolig a Dydd Nadolig gyda'r teulu, gan gynnwys:**

- Offer crefft i wneud cardiau ac anrhegion 'Dolig
- Addurniadau Nadolig a choed Nadolig
- Calendrau Adfent amldro
- Addurniadau bord tymhorol
- Gemau bwrdd a gweithgareddau

**Postiad enghreifftiol i amlygu cynaladwyedd:**




**Postiad enghreifftiol i annog benthyciadau:**




**Postiad enghreifftiol i annog rhoddion:**




**Amserlen weithgarwch**


## Cynnwys cyfryngau cymdeithasol:

# Blwyddyn Newydd


Rhoi'r offer i bobl fynd i'r afael â'u penderfyniadau blwyddyn newydd yn llwyddiannus, gan gynnwys:

- Offer coginio, fel peiriannau blendio a gwneud sudd
- Offer cynnal a chadw cartref fel glanhawyr carpedi
- Offer ymarfer corff
- Offer ymdaclu personol

Postiad enghreifftiol i amlygu cynaladwyedd:




Postiad enghreifftiol i annog benthyciadau:




Postiad enghreifftiol i annog rhoddion:



## Cerrig milltir yr amserlen gweithgareddau:

# Templed hysbysiad i'r wasg


I gynnal momentwm ar ôl lansio'ch hyb, rydyn ni'n argymell creu hysbysiad i'r wasg ar sail arreg filltir, er enghraifft dathlu'r 500fed benthyciad neu'r penblwydd cyntaf ers agor.

Gallwch chi weld templed am
**HYSBYSIAD I'R WASG**
**yn Saesneg yma.**

**CLICIWCH YMA**

Gallwch chi weld templed am
**HYSBYSIAD I'R WASG**
**yn y Gymraeg yma.**

**CLICIWCH YMA**



# Diwrnodau ymwybyddiaeth

**Bydd y gweithgarwch trwy gydol y flwyddyn yn canolbwyntio ar yr amcan pennaf, annog pobl i fenthyg.**

Yn ogystal â'r chwe charreg filltir allweddol, bydd nifer o ddiwrnodau ymwybyddiaeth yn ystod y flwyddyn sy'n cyd-fynd â themâu Benthyg Cymru.

Bydd defnyddio'r hashnodau o'r diwrnodau ymwybyddiaeth yma ar gynnwys perthnasol yn ystod y dyddiadau penodol yn gallu helpu i wella perfformiad eich cynnwys.

**Diwrnod Ailgylchu Byd-eang**
Mawrth

**Diwrnod Llyfrau'r Byd**
Mawrth

**Wythnos Gweithredu ar Wastraff Bwyd**
Ebrill

**Wythnos Arddio Genedlaethol**
Mai

**Wythnos Gwirfoddolwyr**
Mehefin

**Wythnos Ddi-wastraff**
Medi

**Veganuary**
Ionawr

# Templedi cyfryngau cymdeithasol

Cynnwys cyfryngau cymdeithasol gallwch chi ei ailddefnyddio

## Cynnwys cyfryngau cymdeithasol:

# Ymlaen yn gyson Cynnwys cyfryngau cymdeithasol

O fewn y pecyn cymorth yma mae argymhellion am bostiadau gweithgarwch cyfryngau cymdeithasol trwy gydol y flwyddyn.


Mae'r postiadau yma'n gallu cael eu teilwra i beth sydd gennych chi ar gael yn eich Benthyg chi ac ymgorffori delweddau a chynnwys arall rydych chi'n eu creu gyda'ch cydweithwyr.

Mae'r postiadau yma ar gyfer cynnwys cyfryngau cymdeithasol sydd 'ymlaen yn gyson' i gadw diddordeb yn eich sianeli a chyrraedd cynulleidfaoedd newydd ac ennyn diddordeb. Mae'r enghreifftiau hyn ar gael yn y Gymraeg a Saesneg.

Mae templed ynghlwm wrth bob ased, y gallwch ei weld a'i olygu gan ddefnyddio Canva yma.

Rydyn ni wedi cynnwys yr amlder sy'n cael ei argymell am bob math o bostiad hefyd. At ei gilydd, bydden ni'n argymell postio o leiaf 3 gwaith yr wythnos, gydag uchasfwm o 7 gwaith, os bydd eich adnoddau'n caniatáu.

Mae cynnwys yn gallu cael ei greu ymlaen llaw a'i amserlenni gan ddefnyddio offer di-dâl fel Hootsuite (neu ddefnyddio eu cyfrif Pro gyda gostyngiad o 50% sy'n cael ei gynnwys i gyrff di-elw).



## Cynnwys cyfryngau cymdeithasol:


# Cyn benthyg

Postiadau addysgiadol sy'n helpu pobl i wybod pa gamau mae angen iddyn nhw eu cymryd i gofrestru i fenthyg.


Mae'r postiadau yma'n gallu bod yn syml ac yn addysgiadol, gydag asedau sy'n dangos taith defnyddiwr yn glir.

Gorau po symlaf o ran y cynnwys yma, i wneud iddo swnio'n apelgar i'r gynulleidfa.

Templedi.




**Ased:**
**siart llif lliwgar sy'n disgrifio'r broses fenthyg.**




## Cynnwys cyfryngau cymdeithasol:

# Tu hwnt i’r benthyciad


Mae’r cynnwys yma’n gallu helpu i ail-ennyn diddordeb pobl sydd wedi benthyg o’r blaen trwy ofyn iddyn nhw rannu diweddariadau yn dilyn eu profiad o fenthyg er mwyn dangos manteision hirdymor dod yn fenthyciwr.

Mae hyn yn gallu helpu i ddangos manteision parhaus benthyg yn ogystal ag ychwanegu elfen dweud stori ddynol at y cynnwys a fydd yn denu sylw’r gynulleidfa.

Templedi.




**Ased:**
**delwedd o’r benthyciwr / yr effaith gyda dyfyniad.**



## Cynnwys cyfryngau cymdeithasol:

# Sul #AchubYDydd

Annog aelodau'r gymuned i ddangos pa eitem maen nhw wedi'i benthyg o'r blaen sydd wedi achub y dydd mewn rhyw ffordd neu'i gilydd yn y tymor byr.

Gallai hyn gynnwys benthyciad un-tro neu rywbeth sydd wedi cael ei fenthyg sawl gwaith.

Gallai gofyn am sylwadau'r gymuned greu cyfleoedd i ymestyn allan am fwy o gynnwys.

Templedi.




**Ased:**
**Llun o'r benthyciwr gyda'r eitem, dim ond y benthyciwr neu os nad yw'r un o'r rheiny'n bosib, yna'r eitem a dyfyniad.**


## Cynnwys cyfryngau cymdeithasol:

# Y Benthycwyr


Rhoi sylw i fenthycwyr y mis, gan gynnwys lluniau o'r bobl hynny a dyfyniadau am pam maen nhw'n benthyg. Gallwch chi amlygu unrhyw fenthycwyr, yn ogystal â'r person sydd wedi benthyg mwyaf y mis hwnnw fel Benthyciwr Bendigedig y Mis.

Mae creu cronfa o'r cynnwys yma a'i bostio bob yn ail wythnos yn gallu helpu i ddangos pa mor hawdd gall benthyg fod.

Templedi.




**Ased:**
**dyfyniad gan fenthyciwr.**



## Cynnwys cyfryngau cymdeithasol:

# Y Gwirfoddolwyr


Sut beth ydy bod yn wirfoddolwr yn yr ardal? Rhowch sylw i rai o’r gwirfoddolwyr, gyda dyfyniadau am pam maen nhw’n gwirfoddoli.

Mae hyn nid yn unig yn gallu helpu i gynyddu nifer y gwirfoddolwyr, ond hefyd yn gallu dangos y bodau dynol tu ôl i’r prosiect ac annog pobl i ddod draw i ddigwyddiadau.

Templedi.

**Ased:**
**llun o’r aelod tîm a dyfyniad.**



Cynnwys cyfryngau cymdeithasol:

# Digwyddiadau


Dangoswch bigion o’r digwyddiadau wrth iddyn nhw ddigwydd, nid yn unig i annog pobl i ymweld â’r digwyddiadau ond hefyd i weld sut beth ydyn nhw.

Dylai’r postiadau hynny am ddigwyddiadau ddangos yn glir pryd a ble maen nhw’n digwydd fel bod pobl yn gallu nodi’r un nesaf ar eu calendr. Mae postiadau cyn digwyddiad yn allweddol hefyd i hybu presenoldeb.

Templedi.

**Ased:**
**lluniau o’r digwyddiad.**



## Cynnwys cyfryngau cymdeithasol:

# mwyaf ei heisiau

Cymryd stoc o beth ydy'r eitemau mwyaf poblogaidd am bob ardal a chreu cynnwys i annog pobl i roi.

Mae dangos faint mae angen yr eitem mewn perthynas â phob ardal yn gallu helpu i feithrin yr ymdeimlad o gymuned sy'n dod wrth roi. Gallan nhw fod yn helpu eu cymydog.

Templedi.




**Ased:**
**peiriant torri glaswellt a nifer y gweithiau mae wedi cael ei fenthyg y mis hwnnw.**

Cynnwys cyfryngau cymdeithasol:

# Rhowch fenthyg...

Gan ddefnyddio bachau calendr a chysylltiadau tymhorol, bydd y cynnwys yma'n gofyn i'r gynulleidfa fyfyrio ar un eitem yn eu tŷ gallen nhw roi ei fenthyg er mwyn helpu eu cymuned.

Bydd hyn yn eu helpu i weld y prosiect fel rhywbeth i fod yn rhan ohono, ac yna ystyried yr eitemau sydd ganddyn nhw, rhag ofn nad ydyn nhw'n credu bod ganddyn nhw unrhyw beth o fudd.

Templedi.

**Asset:**


**llun tymhorol gyda thestun mawr 'fyddech chi'n ei golli?' neu 'oes arnoch chi ei angen?' i gymell y gynulleidfa i beidio â sgrolio heibio.**



# Hygyrchedd cyfryngau cymdeithasol

Mae'n hanfodol bod y cynnwys sy'n cael ei gynhyrchu gan yr hybiau mor hygyrch â phosibl. Dyma rai awgrymiadau rydyn ni'n argymell eu cynnwys yn eich cynnwys cyfryngau cymdeithasol:

- Ysgrifennwch mewn iaith blaen: Osgowch jargon, bratiaith, neu dermau technegol.
- Peidiwch â gorddefnyddio priflythrennau. Mae priflythrennau llawn yn gallu bod yn anodd eu darllen a chael eu damddehongli gan ddarllenyddion sgrin.
- Am hashnodau aml-gair, defnyddiwch gyfuniad o briflythrennau am lythyren gyntaf pob gair ac yna llythrennau bychain, er mwyn gwneud hashnodau'n fwy darllenadwy ac atal camgymeriadau gan ddarllenyddion sgrin.
- Rhowch hashnodau a menshys ar y diwedd. Mae marciau atalnodi yn cael eu darllen yn uchel gan ddarllenyddion sgrin. Cadwch mewn cof sut mae hashnodau neu fenshys @ yn gallu amharu ar destun.
- Osgwch gymeriadau arbennig sy'n gallu cael eu cam-ddarllen gan ddarllenyddion sgrin, fel '&'.
- Osgwch ddweud "cliciwch yma." Defnyddiwch eiriau disgrifiadol i annog pobl i weithredu fel Cofrestru, Ceisio am ddim, neu Danysgrifio.
- Defnyddiwch gapsiynau disgrifiadol a thestun amgen (sydd hefyd yn cael ei alw'n "alt text") i alluogi pobl i ddeall delweddau pan nad ydyn nhw'n gallu eu gweld (mae gan Facebook, LinkedIn a Twitter i gyd feysydd pwrpasol i chi eu llenwi at y pwrpas yma).
- Croesawch a derbyniwch adborth o'r gymuned. Os bydd rhywun yn tynnu sylw at rywbeth nad ydy'n gweithio iddyn nhw (fel cyfuniad lliwiau neu'r math o air), ystyriwch wneud newidiadau i weddu i'w anghenion, efallai y bydd angen hyn ar bobl eraill yn y gymuned hefyd.



# Newyddlen fisol

BENTHYG CYMRU

**Cyflwyniad:**

# Newyddlen fisol

Rydyn ni'n argymell creu newyddlen fisol i'w rhannu â thanysgrifwyr misol, a fydd fwy na thebyg yn bobl leol sydd am gael y newyddion diweddaraf am eu Benthyg lleol.

**Fe welwch chi dempled o'r testun sy'n cael ei argymell am y newyddlen fisol yma.**

Mae Lend Engine, y platfform benthyg rydyn ni'n ei ddefnyddio, yn gallu cael ei gysylltu â Mailchimp, sy'n ddull cyflym a hawdd i'w ddefnyddio i greu eich newyddlen. Gallwch chi fewnbynnu'r copi rydyn ni wedi ei awgrymu, gyda'ch newidiadau perthnasol, i dempled parod. Gallwch chi fewnforio rhestr o gyfeiriadau e-bost i gyd ar yr un pryd hefyd.

**Os nad ydych yn ffario Mailchimp, mae'r testun yn gallu cael ei ddefnyddio'n uniongyrchol mewn e-bost.**

# Canllawiau cyfryngau cymdeithasol


Enghreifftiau o gynnwys presennol

# Cynnwys Tudalen Facebook

**Mae rhannu eitemmau o'r cyfryngau yn dangos i bobl bod y gymuned yn tyfu**




**Mae dechrau postiadau gyda safbwynt cryf sy'n effeithio ar bobl yn annog diddordeb**









**Mae rhannu erthglau o'r cyfryngau gyda sylwadau yn helpu i ennyn trafodaeth**


# Cynnwys Tudalen Facebook




Cafodd pobl eu hannog i gymryd rhan am fod tudalennau eraill yn rhannu ymdriniaeth o'r agoriad




Mae dangos pobl tu ôl i'r llenni, yn enwedig ar adegau holl-bwysig, yn ennyn diddordeb. Cafodd y postiad hwn ei rannu nifer sylweddol o weithiau.





Bydd rhannu gwybodaeth am ddigwyddiadau'n annog rhannu a sylwadau

# Cynnwys Grŵp Facebook





Bydd rhannu gwybodaeth am ddigwyddiadau'n annog rhannu a sylwadau, gorau po fyrraf!




Mae delweddau clir a lliwiau cryf, yn ogystal ag amlygu'r eitemau mwyaf poblogaidd, yn gweithio'n dda gyda'r gynulleidfa




Mae dangos yr eitemau mae eu heisiau gyda lliwiau brand yn helpu i greu gwelededd am y brand




Mae cymryd rhan mewn trafodaethau lleol yn creu trafodaeth ac adweithiau


# Cynnwys Twitter

Mae postiadau atgrynhoi sy'n diolch i'r gymuned yn gweithio'n dda, yn enwedig gydag ôl-bostiadau mewn edefyn





Mae dangos y bobl tu ôl i'r camera yn ychwanegu elfen ddynol sydd yn ôl pob golwg yn apelgar i'r gynulleidfa


Mae brawddegau byr, dau neu dri ar y mwyaf, yn gweithio'n dda wrth ennyn sylw'r gynulleidfa.



Mae rhannu ymdriniaeth y cyfryngau yn ennyn diddordeb y gynulleidfa am ei bod yn dangos bod y gymuned yn tyfu




Mae aildrydar sylwadau pobl sydd wedi benthyg yn ychwanegu elfen ddynol at y gwasanaeth





Mae canfod adborth cymuned yn ffordd wych o rannu cynnwys apelgar





# Cynnwys Twitter


# Cynnwys Instagram

Mae rhannu cynnwys sydd â datganiadau cryf sy'n ennyn diddordeb dilynwyr yn gweithio'n dda gyda'r gynulleidfa




Mae postiadau atgrynhoi sy'n diolch i'r gymuned yn gweithio'n dda, yn enwedig gydag ôl-bostiadau mewn edefyn




Mae dangos y bobl tu ôl i'r camera yn ychwanegu elfen ddynol sydd yn ôl pob golwg yn apelgar i'r gynulleidfa

# Cynnwys Instagram




Mae rhannu cynnwys sydd â datganiadau cryf sy’n ennyn diddordeb dilynwyr yn gweithio’n dda gyda’r gynulleidfa





Mae postiadau atgrynhoi sy’n diolch i’r gymuned yn gweithio’n dda, yn enwedig gydag ôl-bostiadau mewn edefyn





Ychwanegwch cwpl o hashnodau at y postiadau hefyd i helpu i gynyddu eu cyrraedd

# Instagram Content

Mae postiadau clir gyda phrisiau ac opsiynau yn cyfathrebu popeth mae angen i'r person ei wybod




Mae lliwiau llachar a negeseuon clir yn gweithio'n dda, er bod rhai o'r manylion yn gallu cael eu hychwanegu mewn testun i wneud y delweddau'n glir

# Sianeli Presennol

**Gallai'ch sianel chi gael ei hychwanegu at y rhestr yma, a chofiwch eu dilyn nhw!**

## Facebook

Cyfanswm dilynwyr

**5,599**

**Tudalennau:**

Benthyg Cymru
**2,808 dilynwyr**

Benthyg Penarth
**1,004 dilynwyr**

Benthyg Monmouth
**155 dilynwyr**

ACE Benthyg
**246 dilynwyr**

Benthyg (Cardiff)
**286 dilynwyr**

**GRWPIAU:**

Benthyg Library of Things Barry and Vale of Glamorgan
**1,100 followers**

## Twitter

Cyfanswm dilynwyr

**1,434**

Benthyg Cymru
**1,237 dilynwyr**

Benthyg Penarth
**145 dilynwyr**

ACE Benthyg
**2 dilynwyr**

## Instagram

Cyfanswm dilynwyr

**1,318**

Benthyg Cymru
**808 dilynwyr**

Benthyg Penarth
**433 dilynwyr**

ACE Benthyg
**77 dilynwyr**

## LinkedIn

Cyfanswm dilynwyr

**107**

Benthyg Cymru
**107 dilynwyr**

# Cysylltu â ni

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu angen gwybodaeth ychwanegol, mae pob croeso i chi gysylltu â ni.

becky@benthyg-cymru.org

# Diolch

BENTHYG CYMRU